Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref, Rhuthun, nos Lun, 25 Chwefror 2019, am 7:00pm.

**PRESENNOL**: Y Cynghorwyr Ian Lewney (Maer), Gavin Harris (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams ac Emrys Wynne.
Y Cynghorydd Sir Bobby Feeley

## 188. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Ifan Wyn.

## 189. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 190. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau a ganlyn.

11.02 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol
16.02 Cinio Elusennol y Maer
22.02 Perfformiad 'Beauty and the Beast' Cymdeithas Pantomeim Rhuthun
23.02 Cinio Dathlu Pen-blwydd Cangen Moel Famau Urdd Cynddylifol Brenhinol y Byffalos yn y King's Head, Llanrhaeadr

## 191. ADRODDIADAU'R AELODAU

| | |
|---|---|
| Cyng. Gavin Harris (Dirprwy Faer) | Cyfarfod efo Shane Brennan, Daily Post, ynghylch yr Hen Lys, sesiwn Tîm Tref Taclus, cyfweliad BBC Cymru/Newyddion 9 yn yr Hen Lys, cyfarfod yn yr Hen Lys i roi trefn ar y goriadau gyda'r Clerc a Glenda Jones, cyn weithiwr yn y banc, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, diwrnod agored yr Hen Lys, cyfarfod efo Ben Wilcox-Jones ynghylch y coed ar Heol y Parc, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod Rheoli Cyrchfan Sir Ddinbych, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod efo cwmni Hill & Roberts a chyfarfod efo Dafydd Evans ynghylch yr Hen Lys. |
| Cyng. Keiran Allsopp-Robson | Diwrnod agored yr Hen Lys a chyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos. |
| Cyng. Stephen Beach | Dim i'w adrodd. |
| Cyng. Jim Bryan | Diwrnod agored yr Hen Lys, cyfarfodydd Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, cyfarfod Cymdeithas Gefeillio Rhuthun a Chinio Elusennol y Maer. |
| Cyng. Ken Hawkins | Diwrnod agored yr Hen Lys a Chinio Elusennol y Maer. |
| Cyng. Menna Jones | Sesiwn Tîm Tref Taclus, diwrnod agored yr Hen Lys a chyfarfod Llywodraethwyr Ysgol Pen Barras. |
| Cyng. Jabez Oakes | Dim i'w adrodd. |
| Cyng. Robert Owen-Ellis | Pedair sesiwn Banc Bwyd, diwrnod agored yr Hen Lys, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a Chinio Elusennol y Maer. |
| Cyng. Anne Roberts | Cyfarfodydd Gweithgor yr Hen Lys, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, cyfarfod ynghylch cyllid grant i'r Hen Lys, diwrnod agored yr Hen Lys a chyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol. |
| Cyng. Dave Snape | Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, diwrnod agored yr Hen Lys, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol a Chinio Elusennol y Maer. |
| Cyng. Heather Williams | Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a sesiwn Tîm Tref Taclus. |
| Cyng. Ifan Wyn | Dim i'w adrodd. |
| Cyng. Emrys Wynne | Dim i'w adrodd. |

## 192. ADRODDIADAU CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

Adroddodd y Cynghorydd Emrys Wynne na fyddai Canolfan Awelon yn cau yn 2019. Bydd dyfais cyfri'r traffig yn cael ei osod ar Stryd Mwrog i fonitro'r cerbydau sy'n defnyddio'r ffordd a'u cyflymder. Adroddodd bod y Cyngor Sir yn ystyried cyflogi cwmni gorfodaeth amgylcheddol newydd, a fyddai'n canolbwyntio mwy ar faw cŵn yn hytrach na bonion sigarets. Adroddodd mai cynnydd y dreth gyngor gan Gyngor Sir Ddinbych oedd 6.3%. Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley ddiweddariad ar symud Y Clinig o Stryd y Mynydd i safle Ysbyty Rhuthun, a oedd wedi sicrhau cyllid o £1.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r posibilrwydd o ragor o gyllid. Dywedodd bod pump o drigolion yn Awelon ar hyn o bryd ac 17 o staff. Dywedodd hefyd bod y Cyngor Sir yn ystyried model darpariaeth amgen ar gyfer y Gwasanaethau Hamdden, trwy'r bwriad i greu cwmni hyd braich.

## 193. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

***PENDERFYNWYD****: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2019 yn gywir.*

## 194. MATERION YN CODI

Darllenodd y Clerc lythyr diolch gan Mrs Jennifer Trigger am gyfraniad y Cyngor Tref tuag at adferiad clychau Eglwys Sant Pedr.

## 195. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019.
***PENDERFYNWYD****: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019.*

## 196. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Ystyriodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019.
***PENDERFYNWYD****: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019.*

## 197. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL

Bu'r aelodau'n ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, a'r argymhellion i ofyn am brisiau ar gyfer gwasanaethau cyflogres a chyfrifyddu gan gwmnïau cyfrifyddiaeth lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20.
***PENDERFYNWYD****: derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2019 a gofyn am ddyfynbrisiau gan gwmnïau cyfrifyddiaeth lleol am wasanaeth cyflogres a chyfrifyddiaeth ym mlwyddyn ariannol 2019-20.*

## 198. DIWEDDARIAD YNGHYLCH YR HEN LYS

Cyflwynwyd trosolwg o'r trafodaethau yng nghyfarfod Gweithgor yr Hen Lys, yn cynnwys Dafydd Evans, Kartre, Peter Astbury, Clerc Gwaith, Graham Holland, pensaer cadwriaethol, Fiona Gale, archeolegydd a Robert Price, yn cynrychioli darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth.
***PENDERFYNWYD****: nodi'r diweddariad.*

## 199. ADRODDIAD AROLYGIAD ESTYN - YSGOL STRYD Y RHOS

Roedd y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson, sy'n cynrychioli'r Cyngor Tref ar Gorff Llywodraethu'r ysgol, wedi gofyn am gynnwys yr eitem ar yr agenda fel bod yr holl aelodau'n ymwybodol o'r adroddiad arolygiad Estyn rhagorol a gafwyd, yn dilyn symud i safle'r ysgol newydd yng Nglasdir.
***PENDERFYNWYD****: nodi'r adroddiad ac anfon llythyr llongyfarch gan Gyngor Tref Rhuthun at Bennaeth, staff, disgyblion a Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos.*

## 200. MANNAU CROESI I'R ANABL YN RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr oddi wrth Mr Huw Thelwall Davies ynghylch mannau croesi i'r anabl yn Rhuthun. Roedd y llythyr yn cyfeirio at broblemau, yn enwedig o gwmpas Sgwâr Sant Pedr. Roedd yr aelodau'n awyddus i roi pwysau ar Gyngor Sir Ddinbych i gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol gynted ag y bo modd.

***PENDERFYNWYD**: anfon llythyr llongyfarch at Mr Davies am ei waith ymchwil a threfnu cyfarfod gyda swyddogion a Chynghorwyr Cyngor Sir Ddinbych a gwahodd Mr Davies a chynrychiolwyr o Richards Moorheads and Laing a Jones Bros. Ltd i drafod y gweithredu sy'n ofynnol.*

## 201. BEICIO CYMRU – PENCAMPWRIAETH BEICIO AR Y FFYRDD A THREIALON AMSER CENEDLAETHOL – RHUTHUN 2019

Croesawyd Mark Allen, Arweinydd Tîm Datblygu Beicio Cymru, gan y Maer a'i wahodd i annerch yr aelodau. Esboniodd bod Beicio Cymru yn awyddus i gynnal y Bencampwriaeth Beicio ar y Ffyrdd a Threialon Amser Cenedlaethol yn Rhuthun ar 1 a 2 Mehefin. Byddai'r ras ffyrdd arfaethedig yn cael ei chynnal ddydd Sul, 2 Mehefin, yn dechrau o Glwb Rygbi Rhuthun ac yn mynd trwy Lanfair DC, Nant y Garth a Phwllglas, gan orffen ar y Sgwâr tua 12.30pm i 1pm. Roedd yn amcangyfrif y byddai hyn yn denu 300 o wylwyr ac roeddynt hefyd yn awyddus i gynnal digwyddiadau bach mewn ysgolion cyn y ras a chynnal ras feicio i blant ar y diwrnod. Amlinellodd pa ffyrdd y byddai'n ofynnol eu cau ac fe'i cynghorwyd gan yr aelodau i gysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych gynted ag y bo modd i drafod hynny.
***PENDERFYNWYD**: bod yr aelodau'n cefnogi'r cynnig ac anfon llythyr cefnogaeth i Beicio Cymru.*

## 202. CEISIADAU AM GYFRANIADAU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ceisiadau am gyfraniadau gan:

1. Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, 2-10 Awst 2019
2. Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen, 1-7 Gorffennaf 2019
3. Ambiwlans Awyr Cymru

***PENDERFYNWYD**: rhoi cyfraniad o £200 i Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, cynyddu'r cyfraniad i Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen i £200 a chyfrannu £200 i Ambiwlans Awyr Cymru.*

## 203. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – CHWEFROR 2019

Gofynnwyd i'r aelod ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn dilyn ystyried yr adroddiad drafft ym mis Hydref 2018. Dywedodd y Clerc y byddai'n anfon ffurflen at aelodau fel y gellid gwneud trefniadau i dalu'r lwfans £150 i aelodau, y byddai'n ofynnol ei gyflwyno trwy'r system gyflogres i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
***PENDERFYNWYD:** trefnu cyfarfod y Grŵp Craffu Dogfennau i ystyried y penderfyniadau'n fanwl.*

## 204. AELODAETH UN LLAIS CYMRU 2019-20

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried Cyngor Tref Rhuthun yn ymaelodi gydag Un Llais Cymru yn 2019-20 am ffi dechreuol o £432.
***PENDERFYNWYD:** peidio ag ymaelodi gydag Un Llais Cymru oherwydd bod y gost aelodaeth yn ddrud.*

## 205. ASESIAD RISG BLYNYDDOL

Ystyriodd yr aelodau yr Asesiad Risg Blynyddol a
***PHENDERFYNWYD**: derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.*

## 206. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Ystyriodd yr aelodau y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a
***PHENDERFYNWYD**: derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.*

## 207. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2019.
***PENDERFYNWYD:** derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Ionawr 2019.*

## 208. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 100107 | Zurich Municipal | Ffi polisi yswiriant Cyngor Tref Rhuthun 2019-20 | | £3,643.70 |
| 100108 | Zurich Municipal | Cost yswiriant ar gyfer yr Hen Lys | | £496.72 |
| 100109 | Cyng. Jim Bryan | Costau teithio i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yng Ngholeg Llandrillo, Llandrillo yn Rhos | | £27.90 |
| 100110 | Cyngor Sir Ddinbych | Ffi clirio'r biniau baw ci 2018-19 | * | £468.00 |
| 100111 | Fineline | Nwyddau swyddfa, cerdyn a phapur | * | £22.48 |
| 100112 | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi | Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol | | £295.55 |
| 100113 | Marian Rees | Cyfieithu ar y pryd – Chwefror | * | £180.00 |
| 100114 | Gwasanaethau Coed Cymru / Cambrian Woodland Services | Coeden y Llwybr Celf ar Stryd y Farchnad | * | £318.00 |
| 100115 | Cyngor Sir Ddinbych | Gosod a thynnu ymaith, profi a llunio rhestr y goleuadau Nadolig 2018 | * | £5,422.25 |
| 100116 | Aerial Electrics Ltd | Goleuadau LED ar y coed Nadolig mewn pum safle yn Rhuthun | * | £3,567.60 |
| 100117 | Aerial Electrics Ltd | Gwaith cynnal a chadw trydanol ar y goleuadau LED ar goeden yn Sgwâr Sant Pedr yn dilyn difrod i gangen a gosod lampau gwyn trosi metel halid yn lle lampau sodiwm melyn ar Eglwys Sant Pedr | * | £151.80 |
| 100118 | Eglwys Sant Pedr | Costau llifoleuo'r eglwys | | £901.33 |

## 209. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 25 Mawrth 2019 am 7.00pm.*